

YMATEB LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU I ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO AR:

ADOLYGIAD O WASANAETHAU MEDDYGOL CYFFREDINOL 16 IONAWR 2008: ADRODDIAD Y PWYLLGOR (3) 01-08

Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r naw argymhelliad yn yr adroddiad.

ARGYMHELLION:

1. Dylai Llywodraeth y Cynulliad fonitro newidiadau o ran canlyniadau i gleifion dros gyfnod o amser, a maes o law, dylai gomisiynu gwerthusiad annibynnol o effeithiolrwydd y Fframwaith o ran canlyniadau i gleifion a'i effaith ar y galw ym maes gofal eilaidd.

Derbyniwyd yr Argymhelliad – paratowyd adroddiad gan Brifysgol East Anglia o dan y testun 'The Potential Population Health Gain of the Quality and Outcomes Framework' yn 2007. Cafwyd adroddiad gan Brifysgol Caerefrog hefyd yn 2007 o dan y teitl 'Doctor Behaviour Under a Pay for Performance Contract: Evidence from the Quality and Outcomes Framework'. Yn 2007 hefyd, lluniwyd adroddiad gan Gyflogwyr y GIG i'r 4 Adran Iechyd: "The Quality and Outcomes Framework 3 Years On". Gyda'i gilydd, mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwerthusiad annibynnol amhrisiadwy o holl agweddau'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, ac maent yn cael eu defnyddio i lywio datblygiadau o ran polisiau yn y dyfodol ac i benderfynu yr angen am a chwmpas gwerthusiad ychwanegol yng Nghymru.

2. Ar sail arfer da ledled Cymru, dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi canllawiau ar strategaethau ac archwiliadau mynediad priodol i wella mynediad i gleifion ar ddechrau 2008. Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol sicrhau bod practisau yn cyflwyno tystiolaeth i ddangos eu bod wedi cyrraedd y targedau hyn o dan y drefn newydd erbyn dechrau 2008/2009.

Derbyniwyd yr Argymhelliad – wrth weithredu Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd ar gyfer Mynediad 2007/8, cafodd darpariaethau newydd eu cynnwys i'w gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol gynnal gwiriadau i sicrhau bod practisau sy'n hawlio'r taliad hwn yn cyrraedd targedau mynediad. Mae newidiadau sylweddol yn debygol o gael eu gwneud i Wasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd ar gyfer Mynediad 2008/9. Mae hyn o dan drafodaeth ar hyn o bryd. Bydd y canllawiau ar y Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd newydd yn pwysleisio'r angen i gynnal gwiriadau ac i wella mynediad i gleifion. Bydd amserlen y canllawiau yn dibynnu ar y modd y mae'r trafodaethau'n datblygu, ond mae'n rhaid inni anelu at gwblhau'r canllawiau erbyn 1 Ebrill 2008.

3. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu fframwaith i alluogi Byrddau Iechyd Lleol i drosglwyddo adnoddau o ofal eilaidd i wella gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn haws. Un mesur posibl fyddai

dyrannu'r arian sydd wedi'i neilltuo i alluogi Byrddau Iechyd Lleol gyflwyno gwasanaethau gwell lleol, sydd wedi'u targedu'n well i ddiwallu anghenion lleol; a

4. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu fframwaith ariannu sy'n cynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol i ddatblygu gwasanaethau dros gyfnod o fwy na blwyddyn ariannol, gan ganiatáu amser i hyfforddi a recriwtio practisau priodol a meddygon teulu neu nyrsys practis i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol. Dylai Byrddau Iechyd Lleol fanteisio ar bob cyfle i gomisiynu Gwasanaethau Gwell Lleol ar y cyd i roi mwy o ganolbwynt strategol i'r broses o gynllunio gwasanaethau.

Derbyn y Ddau Argymhelliad yn Rhannol – Mae Byrddau Iechyd Lleol yn rhydd i gomisiynu gwasanaethau gan y darparwr sy'n diwallu anghenion cleifion orau. Pan sefydlwyd y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn 2003, gosodwyd Isafswm Gwasanaethau Gwell. Roedd hyn yn gosod y isafswm buddsoddiad mewn gwasanaethau gwell am 3 blynedd cyntaf y contract. Er bod cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer y Contract newydd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, mae gan Fyrddau Iechyd Lleol yr opsiwn i fuddsoddi ymhellach, yn ôl eu disgrisiwn, yn y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol newydd. Dyraniadau cyllid y Byrddau Iechyd Lleol oedd yn gosod yr isafswm oedd i'w wario gan bob Bwrdd Iechyd Lleol, ac roedd hyn yn cael ei fonitro yng Nghymru a chan y Pwyllgor Technegol a Llywio ar lefel y DU. Mae hyn wedi sicrhau bod y buddsoddiad mewn gwasanaethau gwell wedi cynyddu fel a ganlyn:

Blwyddyn	Isafswm Gwasanaethau Gwell	Gwariant Gwirioneddol
2003-4	£ 8.1 miliwn	£7.9 miliwn
2004-5	£ 21.9 miliwn	£23.2 miliwn
2005-6	£ 24.3 miliwn	£24.7 miliwn
2006-7	£ 33.7 miliwn	£33.6 miliwn

O ddechrau'r contract, roedd canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gwneud yn glir bod gwasanaethau gwell yn ddull o ehangu gofal sylfaenol a throsglwyddo gwasanaethau yn nes at gartref y claf. Cafodd targedau y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid eu pennu yn 2003/4 i'w gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol sefydlu gwasanaethau gwell yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y rhain yn gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol fuddsoddi mewn chwe gwasanaeth penodol yn 2003 a phedwar arall yn 2004. Cafodd ugain o fanylebau enghreifftiol eu datblygu i gynorthwyo'r broses. Rydym yn ystyried bod datblygiadau sylweddol wedi eu gwneud. Nid yw'n hawdd gostwng buddsoddiad mewn gwasanaethau ysbytai pan fo'r boblogaeth yn heneiddio a phan ceir lefelau uchel o glefydau cronig. Fodd bynnag, mae gwariant ar wasanaethau gwell wedi cynyddu'n sylweddol dros 4 blynedd cyntaf y contract hwn. Rydym yn derbyn bod angen datblygu ymhellach a delio â'r gwahaniaethau ym mherfformiadau'r Byrddau Iechyd Lleol. Bydd y gweithdrefnau rheoli perfformiad yn mynd i'r afael â hyn, ynghyd â chanllawiau pellach ar wasanaethau gwell erbyn Ebrill 2008. Byddwn yn ystyried pa gyfleoedd fydd ar gael i roi mwy o wybodaeth i sefydliadau'r GIG am y sefyllfa o ran eu cyllido mewn blynyddoedd a ddaw, o

fewn cyd-destun setliadau tair blynedd yr Adolygiad o Wariant. Mae'r Gweinidog yn ystyried cyd-bwysedd yr adnoddau fel rhan o'r cynllun i ganolbwyntio ar rheolaeth clefydau cronig yng Nghymru, a thrwy hynny i symud gwasanaethau a'i chyllid i'r gymuned.

5. Dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu a symleiddio ei phrosesau ar gyfer datblygu'r ystad gofal sylfaenol er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau ar amser ac yn strategol.

Derbyniwyd yr Argymhelliad – gwnaethpwyd newidiadau eisoes i gyflymu'r broses hon. Er enghraifft, rydym wedi newid y drefn i sicrhau nad yw cyfraniad y Comisiwn Dylunio yn achosi oedi yn y broses o wneud cais. Mae nifer o adolygiadau parhaus yn debygol o gael effaith ar ddatblygiad yr ystad gofal sylfaenol. Er enghraifft mae disgwyl i'r adolygiad o Ofal Sylfaenol a Chymunedol yng Ngogledd Cymru edrych ar yr oedi o ran datblygu safleoedd yn yr ardal honno. Rydym yn anelu at gwblhau'r gwaith hwn erbyn Mehefin 2008. Bydd canlyniadau yr adolygiad yn cael eu ystyried gan sefydliadau trwy Cymru gyfan. Disgwylir iddynt adnewyddu eu strategaethau cymunedol a'u strategaethau ystad gofal sylfaenol erbyn 1af Ebrill 2009.

6. Wrth weithio gyda'r adrannau iechyd cyfatebol yn y DU, ynghyd â Chyflogwyr y GIG a Chymdeithas Feddygol Prydain, dylai Llywodraeth y Cynulliad addasu'r Fframwaith i adlewyrchu'r newid o ran arfer clinigol.

Derbyniwyd yr Argymhelliad – mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu y dylai gwella ansawdd fod yn broses barhaus. Dylai'r fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau fod yn rhywbeth byw, sy'n datblygu ar law yn llaw ag arferion clinigol. Dylai hefyd fod yn ofynnol i'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ddangos gwelliannau mewn effeithlonrwydd bob blwyddyn, fel gweddill y GIG. Rydym wedi cyfleu'r pwyntiau a wnaethpwyd gan y Pwyllgor i'r 3 adran iechyd arall, ac i Gyflogwyr y GIG, sy'n gweithredu fel asiant i'r adrannau iechyd. Rydym yn disgwyl i'r safbwyntiau hyn gael eu hadlewyrchu yn safiad Cyflogwyr y GIG yn ystod eu trafodaethau yn y cylch nesaf, a fydd yn dechrau yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

7. Dylai Byrddau Iechyd Lleol:

a. cyflwyno archwiliadau Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau manwl o 5 y cant o bractisau o 2008/2009 ymlaen;

b. hyrwyddo her fwy trylwyr o fewn eu hymweliadau sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith drwy, er enghraifft, gyfnewid aseswyr rhwng Byrddau Iechyd Lleol i rannu gwybodaeth a syniadau; ac

c. datblygu proses o reoli perfformiad gofal sylfaenol drwy gynnwys meysydd eraill mewn ymweliadau'r Fframwaith, fel llywodraethu clinigol a gwybodaeth gymharol am berfformiad (e.e. rhagnodi ac atgyfeiriadau).

Dylai Llywodraeth y Cynulliad:

d. monitro cydymffurfiad â'r targed i sicrhau y cynhelir archwiliadau'r Fframwaith ar bump y cant o bractisau; ac

e. cyhoeddi rhagor o ganllawiau i Fyrddau Iechyd Lleol ar y broses o fonitro'r Fframwaith, yn cynnwys enghreifftiau o arfer da o Gymru a thu hwnt.

Derbyniwyd yr Argymhelliad – mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yn llawn yr angen i gynnal archwiliadau rheolaidd o'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau mewn modd cyson ledled Cymru. Cyhoeddodd ganllawiau cynhwysfawr i'r perwyl hwnnw yn 2004, a chynhaliwyd gweithdai rhanbarthol i gadarnhau'r negeseuon hynny. Bydd y canllawiau hynny yn cael eu hadolygu, er mwyn sicrhau bod pwyntiau a. i e. uchod wedi eu ddatgan yn glir fel gofynion. Bydd y Byrddau Iechyd Lleol yn derbyn cyfarwyddiadau i ddilyn y canllawiau. Rydym yn anelu at gwblhau hyn erbyn mis Ebrill 2008.

8. Drwy gynnal cyfarfodydd ar y cyd rhwng y pedair adran iechyd, a hynny drwy Gyflogwyr y GIG a Chymdeithas Feddygol Prydain, dylai Llywodraeth y Cynulliad ddileu'r MPIG yn raddol o fewn y pum mlynedd nesaf i gyflwyno manteision llawn fformiwla'r swm byd-eang.

Derbyniwyd yr Argymhelliad – mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno nad oes angen yr MPIG bellach a'i fod yn rhwystr rhag dosbarthu adnoddau'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn deg. Bydd yn parhau i weithio o fewn trafodaethau'r DU i ddirwyn yr MPIG i ben cyn gynted â phosib, gan ystyried yr angen i beidio ag ansefydlogi meddygaeth deulu yng Nghymru.

9. Dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau arferol er mwyn sicrhau y caiff pob agwedd ar wasanaethau y tu allan i oriau arferol ei mesur ac y cyflwynir adroddiad ar hyn mewn ffordd gyson ledled Cymru erbyn 2009/2010. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried hygyrchedd gwasanaethau i gleifion sydd o dan anfantais wrth ddatblygu ei gwaith ar lwybrau gofal heb eu trefnu drwy Gyflenwi Gwasanaethau Gofal Brys.

Derbyniwyd yr Argymhelliad – Bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. Mae hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau bod y gwasanaeth ar gael i bob claf. Ein bwriad yw bydd hwn yn weithredol erbyn Ebrill 2008.